Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth

**Heol Llansteffan**
**Tre Ioan**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 3NL**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1346 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1092 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 250 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.5%) | 19.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 23%) | 37.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ebrill 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | Ionawr 2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, mae disgyblion a staff yn coleddu gweledigaeth y pennaeth, sy'n cael ei chyfleu'n glir, a'i themâu allweddol, sef parch, perthnasoedd a chyfrifoldeb. Yn y cyfnod byr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi blaenoriaethu lles ar gyfer disgyblion a staff yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni eu huchelgeisiau ar y cyd. Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw arfer yn y ganolfan gynhwysiant, sef Canolfan Elfed, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion. Mae ei harweinwyr a'i staff wedi creu amgylchedd hynod gynhwysol ac anogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cryf o ran eu targedau unigol.

Mae dysgu proffesiynol ar gyfer staff wedi cyfrannu'n dda at wella lles a gofal, cymorth ac arweiniad cryf. Hyd yma, nid yw wedi canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi, mewn lleiafrif o achosion, nid yw cynllunio athrawon yn ystyried dysgu na chynnydd yn ddigon da, ac yn gyffredinol, nid yw adborth yn ddigon manwl gywir i gynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith.

Ar ôl ad-drefnu rolau yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi ymgymryd â'u rolau priodol â brwdfrydedd. Er gwaethaf y dechrau cadarnhaol hwn, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod rolau arwain a'u cyfrifoldebau cysylltiedig i gyd yn ddigon clir. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dechrau casglu gwybodaeth am waith yr ysgol gan ddefnyddio prosesau addas. At ei gilydd, nid yw'r dystiolaeth y maent yn ei chasglu yn ddigon gwerthusol ynghylch dysgu ac addysgu.

Mae'r timau lles, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ddarpariaeth a chymorth personoledig tra ystyriol. Er bod presenoldeb wedi gwella ers y pandemig, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen parhau i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn enwedig y rhai sy'n parhau i fod yn absennol yn barhaus, neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion bregus yn dda.

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu fel ei fod yn cael effaith gyson ar ddysgu disgyblion

A2 Sicrhau bod cyfrifoldebau arwain yn cael eu diffinio'n glir a'u dosbarthu'n deg

A3 Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

A4 Cryfhau darpariaeth i leihau absenoldebau parhaus a gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, ac mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf. Mewn gwersi, mae llawer ohonynt yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn dda, ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon i sefyllfaoedd newydd yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn creu cysylltiadau o fewn ac ar draws cyfnodau amser wrth gymharu iechyd cyhoeddus yn ystod y chwyldro diwydiannol a heddiw. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, cyfyngedig yw gallu lleiafrif o ddisgyblion i alw dysgu blaenorol i gof. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i wneud cynnydd digonol â'u dysgu newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar yr athro, ac ar eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth ac yn hyderus i ateb cwestiynau sylfaenol. Pan fyddant yn cael eu hannog i ateb yn fanwl neu gyda mwy o fanylion, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n hyderus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion estynedig sy'n esbonio eu rhesymu'n dda. Maent yn sgwrsio ar y cyd mewn parau, yn gwneud defnydd addas o eirfa bwnc newydd ac yn cyfnewid syniadau'n aeddfed. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae disgyblion yn trafod anomaleddau yn ystyriol wrth gyfrifo cyfartaleddau. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn huawdl ac yn cynnig atebion estynedig ar lafar i gwestiynau athrawon, ac yn cyfiawnhau eu meddwl.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn darllen gyda dealltwriaeth addas i adalw gwybodaeth o destunau syml, a gallant nodi themâu a syniadau allweddol. Mewn gwersi lle caiff medrau darllen penodol eu haddysgu i ddisgyblion, fel sut i gymharu a chyferbynnu, mae llawer o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth yn briodol o ystod o ffynonellau. Mewn Saesneg, maent yn dod i gasgliadau cywir am agweddau ar gymeriad Scrooge o ddelwedd ohono, a gall mwyafrif y disgyblion ddod i gasgliadau ynglŷn â theimladau cymeriadau o'r testun. Yn gyffredinol, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i gymhwyso'r medrau darllen y maent yn eu datblygu yn eu gwersi Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith a defnyddio paragraffau yn briodol. Mae'r disgyblion hyn yn ysgrifennu brawddegau estynedig ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n glir at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ystyried heriau bod yn rhiant. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n rhugl, yn defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa yn eu hysgrifennu. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol.

Mewn mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhif cadarn ac yn cymhwyso'r rhain yn addas ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o'r pedair rheol a'r cysylltiadau rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion i ddatrys amrywiaeth o broblemau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhif yn gywir i gyfrifo effeithlonrwydd canran eitemau trydanol. Mae llawer ohonynt yn newid yn rhwydd rhwng gwahanol fesurau metrig wrth wneud cyfrifiadau. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi graffiau yn

briodol, ac mewn gwyddoniaeth, gallant eu defnyddio i gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfradd ffotosynthesis wrth i ddwysedd goleuni gynyddu. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol gwan. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd dirnad cysyniadau newydd.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn nodi ardaloedd o daenlen i brofi yn seiliedig ar ymarferoldeb. Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion sy'n astudio cerddoriaeth yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn greadigol wrth gyfansoddi eu darnau eu hunain.

O roi cyfleoedd iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn dda. Yn y celfyddydau mynegiannol, mae disgyblion yn hyderus i fentro a rhoi cynnig ar ddulliau dychmygus. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth gynllunio a defnyddio eu medrau corfforol i ddatblygu eu stamina a'u gwytnwch.

Mae llawer o ddisgyblion Cymraeg ail iaith yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn adalw gwybodaeth o glip fideo ar ddefnyddio technoleg yn dda ac yn cyfleu eu hatebion yn hyderus. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig ac yn mynegi eu barn yn glir wrth drafod manteision ac anfanteision ffonau symudol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mewn atalnodi a strwythur brawddegau.

Er gwaethaf eu gallu cadarn i siarad Cymraeg, nid oes gan ddisgyblion iaith gyntaf yr hyder i ateb na chyfrannu at drafodaethau dosbarth. Oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig ar draws y cwricwlwm, mae eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn llai datblygedig, ac o ganlyniad, gwnânt gynnydd cymedrol yn unig.

Mae disgyblion yng Nghanolfan Elfed yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u targedau unigol. Mae disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) yn gwella eu medrau cyfathrebu dieiriau i'w helpu i gyfleu eu hanghenion sylfaenol. Gall mwyafrif y disgyblion hyn gyfathrebu â staff i ddangos sut maen nhw'n teimlo. Dros gyfnod, mae disgyblion â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth (CSA) yn datblygu eu hyder yn dda ac yn dysgu medrau annibyniaeth pwysig. Fel rhan o'u cwrs medrau bywyd, maent yn ymarfer technegau ymwybyddiaeth ofalgar i'w helpu i hunanreoleiddio, ac yn arddangos eu medrau coginio mewn fflat wedi'i hadeiladu'n bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i addysg bellach mewn coleg neu'n aros yng Nghanolfan Elfed ar gyfer eu haddysg ôl-16.

Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Er enghraifft, mewn busnes, mae disgyblion yn defnyddio swyddogaethau taenlen yn fedrus i adio a thynnu llif arian i mewn, llif arian allan a balansau arian. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar esboniadau ac ar gyfraniadau eu cyfoedion, ac yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth, gan esbonio eu rhesymu yn glir.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yn yr ysgol. Maent yn credu bod disgyblion yn cael eu trin yn deg ac na wahaniaethir yn erbyn unrhyw grwpiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio pan

fydd yn digwydd, ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod ble i gael cymorth os bydd ei angen arnynt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd diet ac ymarfer corff fel rhan o ffordd iach o fyw, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth o strategaethau priodol i gefnogi iechyd meddwl da. Mae disgyblion yn elwa ar gyfranogi mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol addas, fel y rhai sydd wedi'u targedu at chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformiadol. Mae'r cynghorau disgyblion ysgol gyfan a grwpiau blwyddyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau arwain. Caiff y fforymau hyn eu trefnu'n dda ac maent wedi dylanwadu ar newid mewn meysydd fel gwisg ysgol a darpariaeth y ffreutur. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion iau ymgymryd â rolau arwain y tu allan i'r grwpiau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn frwdfrydig am yr ysgol ac mae disgyblion hŷn yn mwynhau llawer o agweddau ar eu dysgu. Mae perthnasoedd gweithio cefnogol a chadarnhaol rhwng disgyblion ac oedolion yn amlwg ar draws yr ysgol mewn gwersi a'r tu allan iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol ac yn barchus gyda'i gilydd hefyd i gwblhau tasgau grŵp. Mae'r disgyblion hyn yn coleddu cod ymddygiad '3R' yr ysgol sy'n cwmpasu parch (respect), perthnasoedd (relationships), a chyfrifoldeb (responsibility). Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn bwrw ymlaen yn gyflym â thasgau, yn dangos gwydnwch i'w cwblhau ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn trafodaethau pan gânt eu hannog i wneud hynny. Mewn ychydig iawn o achosion lle mae rheolaeth ystafell ddosbarth yn llai effeithiol, mae ychydig o ddisgyblion yn siarad ar draws ei gilydd a'r athro, ac o ganlyniad, mae disgyblion eraill yn y dosbarth yn ei chael yn anodd gwrando ar gyfarwyddiadau. Dywedodd llawer o ddisgyblion wrthym ei bod yn rhwystredig iddyn nhw pan fydd yn digwydd.

Er bod presenoldeb wedi gwella o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb yn yr ysgol, mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn parhau i fod yn destun pryder i'r ysgol. Yn ychwanegol, mae gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyfraddau uwch o absenoldeb o gymharu â disgyblion eraill.

Mae gan bron pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol ac aeddfed at eu dysgu. Maent yn awyddus i lwyddo, yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn dangos annibyniaeth a hyder. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda ar esboniadau sy'n cael eu rhoi gan athrawon, ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac yn esbonio eu safbwyntiau'n glir. Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol ar ymgymryd ag ystod o rolau arwain, er enghraifft gweithredu fel penaethiaid tai, mentora disgyblion iau a chefnogi darpariaeth chwaraeon allgyrsiol.

Mae disgyblion sy'n mynychu Canolfan Elfed yn ymgysylltu'n dda iawn â'u cyfoedion a staff. Maent yn gefnogol ac yn barchus at ei gilydd, er enghraifft pan fyddant yn cymryd rhan mewn prosiectau gwyddoniaeth neu weithgareddau celf a dylunio a pherfformio. Maent yn integreiddio i fywyd ehangach yr ysgol gan gynnwys defnyddio ffreutur yr ysgol yn ystod amser cinio. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynychu gwersi yn y brif ffrwd os yw'n briodol, ac yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn weithredol. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn mwynhau ac yn ymgymryd â'r gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynllunio ar eu cyfer. Maent yn sylwgar ac yn

gweithio'n effeithiol iawn mewn grwpiau bach neu'n unigol. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol hefyd, gan gynnwys y celfyddydau perfformiadol. Er enghraifft, mae bron pob un o ddisgyblion Canolfan Elfed yn ymarfer ar gyfer cynhyrchiad 'The Wizard of Oz' ar hyn o bryd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u disgyblion, ac maent yn creu amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol. Mae ganddynt arferion effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n dda ar ddechrau'r wers. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith da. Pan gaiff cynorthwywyr addysgu eu defnyddio, mae athrawon yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo unigolion a grwpiau bach yn y dosbarth.

Mae llawer o athrawon yn frwdfrydig ac yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir. Maent yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth i fonitro pa mor dda y mae disgyblion yn dod yn eu blaenau. Mae'r athrawon hyn yn rhoi adborth buddiol ar lafar i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith. Fodd bynnag, lleiafrif o athrawon yn unig sy'n defnyddio technegau holi yn fedrus i ddyfnhau meddwl disgyblion a sicrhau eu bod yn rhoi atebion estynedig, tra ystyriol.

Ym mwyafrif y gwersi, mae'r addysgu yn effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer dysgu disgyblion. Maent yn ystyried yn ofalus pa gyfres o weithgareddau y dylent eu darparu fel bod disgyblion yn cyflawni'r nodau dysgu ac yn datblygu eu medrau. Mae'r athrawon hyn yn darparu lefel briodol uchel o her ar gyfer disgyblion ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol i lwyddo. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu, fel ei gilydd. Maent yn modelu eu disgwyliadau'n glir ac yn sicrhau bod cyflymdra'r addysgu yn cyd-fynd yn agos â chyflymdra'r dysgu.

Mewn ychydig o wersi, ceir addysgu hynod effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn uchelgeisiol ar gyfer dysgu eu disgyblion ac yn cynllunio tasgau heriol sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn gryf. Maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn ddwys a datblygu eu hannibyniaeth. Mae'r athrawon hyn yn gwneud defnydd medrus o'u gwybodaeth bynciol a'u dulliau addysgu i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym trwy gydol y wers. Maent yn monitro'r cynnydd a wna disgyblion yn agos ac yn defnyddio eu canfyddiadau'n dda i fynd i'r afael â chamdybiaethau, ac yn addasu eu haddysgu.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion mewn addysgu yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cyflwyno cyfres o weithgareddau yn hytrach na chynllunio'n ofalus yr hyn y bydd disgyblion yn ei ddysgu. Nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac nid yw eu cynllunio yn rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion pob disgybl yn y dosbarth. Yn aml, mae gweithgareddau yn y gwersi hyn yn ailadroddus ac nid ydynt yn adeiladu'n dda ar ei gilydd.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig, i ddatblygu dysgu'r disgyblion yn benodol i bwnc, a datblygu eu medrau, yn anghyson. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi cyngor manwl i ddisgyblion ar sut gallant ddatblygu eu dysgu,

ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'w sylwadau. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol. Yn ychwanegol, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn briodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i olrhain cynnydd disgyblion a nodi'r rhai sy'n tangyflawni. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn trwy'r ap ar-lein, nosweithiau rhieni ac adroddiadau interim ac adroddiadau llawn rheolaidd. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gyflawniad a chynnydd y plentyn, ynghyd â thargedau buddiol ar sut i wella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion ei disgyblion yn dda, gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol a'u dyheadau. Mae ystod gynhwysfawr o gyrsiau sy'n cynnig llwybrau academaidd a galwedigaethol ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau mewn archwilio cerbydau, gwallt a harddwch, lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus, ac mewn astudiaethau'r cyfryngau, y gyfraith a throseddeg ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae disgyblion yn elwa'n fawr ar y cyngor a'r cymorth arbenigol a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau am eu dyfodol. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd angen ymyriadau yn dilyn cwricwlwm wedi'i addasu sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus.

Yng Nghanolfan Elfed, mae disgyblion yn cael cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol, a rhoddir lle i 'beth sydd wir yn bwysig' mewn cynlluniau a chynlluniau dylunio'r cwricwlwm. Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio rhaglenni a gweithgareddau yn ystyriol i ddiwallu anghenion dysgu unigol disgyblion. Cymerir gofal gwych i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn barod ar gyfer dysgu ar ddechrau'r dydd, trwy ystod helaeth o weithgareddau lles a synhwyraidd. Mae staff arbenigol yn defnyddio medrau fel lleferydd ag arwyddion yn effeithiol i ymgysylltu â disgyblion sydd â nam ar y clyw ac yn darparu profiadau synhwyraidd gwerthfawr i symbylu ymgysylltiad a mwynhad o ddysgu.

Wrth gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn dysgu, mae gan gydlynwyr drosolwg clir o ddarpariaeth, a dealltwriaeth gref o flaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent wedi darparu hyfforddiant ac adnoddau gwerthfawr i staff i'w cynorthwyo â chynllunio i ddatblygu medrau disgyblion. Ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd a'u medrau ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen datblygedig mor gryf. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhesymu rhifiadol a'u medrau datrys problemau mewn mathemateg. Ar draws y cwricwlwm, ceir ystod addas o weithgareddau gwerth chweil i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion yn gryf.

Mae gan arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sy'n canolbwyntio ar yr ysgol yn datblygu medrau a phrofiadau dysgu disgyblion mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae'r ysgol yn treialu a gwerthuso ymagweddau newydd at y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n ddigon da eto ar ddysgu disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. Mae cydlynwyr medrau yn gweithio'n fuddiol gyda rheolwyr cwricwlwm ac athrawon i gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn y cwricwlwm newydd. Nid yw ymgynghori â rhanddeiliaid a chydweithio ag ysgolion cynradd lleol a'r gymuned ehangach ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion brofi hanes a diwylliant Cymru, a dysgu amdanynt. Fodd bynnag, nid yw disgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cael digon o gyfleoedd i barhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Caiff rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol ei chydlynu'n dda, ac mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'n adlewyrchu ethos yr ysgol i hyrwyddo lles yn effeithiol. Ceir darpariaeth gadarn ar gyfer datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o hanes a diwylliant cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl LHDTC+.

Ceir ystod eang o brofiadau buddiol, gan gynnwys teithiau addysgol a chlybiau allgyrsiol sy'n ategu ac yn ymestyn dysgu disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys Shakespeare in Schools, Criw Cymraeg a chyfleoedd i astudio amrywiaeth o ieithoedd ychwanegol, gan gynnwys Eidaleg, Lladin, a Groeg Hynafol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, ac mae'n cefnogi datblygiad personol ei disgyblion yn dda. Mae gan y staff ffocws cryf ar les disgyblion, ac ymagwedd unigoledig at ddarparu cymorth. Ceir llawer o gysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau ieuenctid a gyrfaoedd, sy'n ychwanegu at waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith ar gyfer nodi a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn gryfder yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf, yn eu dysgu. Cytunir ar dri tharged bob blwyddyn ar gyfer y disgyblion hyn, sy'n benodol i'w hanghenion. Eleni, mae staff wedi addasu un o'r targedau hyn i'w wneud yn benodol i bwnc, fel bod disgyblion yn deall beth mae'r targed yn ei olygu yn ymarferol mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae cynlluniau datblygu unigol disgyblion yn ddogfennau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n disgrifio eu hanghenion a'r strategaethau y dylai staff eu defnyddio i'w cynorthwyo. Mae gan ddisgyblion ag ADY broffil un dudalen fuddiol hefyd, ac yn gyffredinol, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon yn eu cynllunio a'u haddysgu.

Ceir ystod eang o ymyriadau buddiol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu, fel dosbarthiadau cwricwlwm wedi'i addasu a sesiynau llythrennedd a rhifedd dwys. Gall disgyblion bregus fanteisio ar grwpiau cymorth buddiol amrywiol, er enghraifft rhai sy'n canolbwyntio ar reoli dicter neu atal ymddygiadau peryglus. Mae rhaglen dargedig Blwyddyn 9 yn gwella ymgysylltiad ac ymddygiad grŵp bach o ddisgyblion yn llwyddiannus trwy addasu'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau corfforol, fel adeiladu gwelyau uchel ar gyfer garddio, ochr yn ochr â'u gwersi arferol.

Mae arweinwyr bugeiliol yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i hyrwyddo ac annog presenoldeb da. Ceir system glir i fonitro presenoldeb, a chysylltir yn rheolaidd â theuluoedd disgyblion y mae eu presenoldeb yn is nag y dylai fod. Mewn achosion lle mae disgyblion yn methu neu'n amharod i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, mae staff

yn gwneud ymdrechion sylweddol i barhau i gefnogi eu cynnydd addysgol. Serch hynny, mae absenoliaeth barhaus yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol ar ôl y pandemig.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei ffocws ar ddisgyblion sydd dan anfantais yn sgil tlodi dros y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, mae staff yn monitro cynrychiolaeth y disgyblion hyn ar wahanol fforymau, fel y cyngor ysgol, ac yn cynllunio dosbarthiadau'n ofalus i godi dyheadau a chyrhaeddiad y disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi lleihau'r bwlch sylweddol mewn presenoldeb rhwng y disgyblion hyn a'u cyfoedion eto.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy agweddau ar y cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol amrywiol a rhaglen gynlluniedig o wasanaethau ac addoli ar y cyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddeall eu hawliau a meddwl am agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, mae amseroedd cofrestru yn rhy fyr i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llawn a datblygiad personol disgyblion yn unol â'r hyn a drefnwyd.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi ennill ei phlwyf yng nghyfnod allweddol 3 trwy wersi bob pythefnos a sesiynau galw i mewn rheolaidd. Mae'n cael ei datblygu ymhellach eleni trwy wersi iechyd a lles ym Mlwyddyn 7. Mae darpariaeth ABCh yn ymatebol i anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio data yn effeithiol o arolygon disgyblion i gynllunio sesiynau ataliol am broblemau fel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan elwa ar arbenigedd allanol yr heddlu a gwasanaethau meddygolm pan fo'n briodol.

Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant o ddiogelu a lles yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn glir a thrylwyr. Mae staff yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol i roi ystod o strategaethau ar waith i helpu disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, yn ddiogel rhag camfanteisio, a gwneud dewisiadau diogel am ffordd o fyw. Mae'r ysgol yn ymchwilio i unrhyw achosion o fwlio honedig yn brydlon. Mae'n cadw cofnodion manwl ac yn defnyddio staff yr ysgol, partneriaid allanol, a dulliau adferol yn dda i gynorthwyo'r disgyblion dan sylw. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r teuluoedd mwyaf bregus i gefnogi presenoldeb ac agweddau eraill ar les.

Yng Nghanolfan Elfed, mae staff wedi creu amgylchedd hynod gynhwysol ac anogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cryf o ran eu targedau unigol. Caiff ymyriadau i gynorthwyo disgyblion eu cynllunio'n gynhwysfawr i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae staff yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o asiantaethau i gefnogi anghenion disgyblion, ac mae pob aelod o staff yn dilyn cynlluniau wedi'u dylunio'n ofalus sy'n cynnwys athrawon arbenigol, rhieni a'r disgyblion eu hunain. O ganlyniad, gall disgyblion fanteisio ar ystod helaeth o gymorth buddiol. Ceir cyfleoedd cynlluniedig ar gyfer disgyblion o Ganolfan Elfed i integreiddio i fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion â namau ar y clyw yn treulio'r mwyafrif o'u hamser mewn dosbarthiadau prif ffrwd, ac fe gaiff hyn effaith fuddiol ar eu lles.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac ymrwymiad clir, wedi'i seilio ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, i sicrhau bod pob disgybl yn cael pob cyfle i gyflawni o'i orau. Ers ei benodi, mae wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu corff staff sy'n cydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Trwy wneud hyn, mae'r pennaeth wedi gwella morâl ac wedi cefnogi lles staff, gan greu cymuned sy'n cydweithio'n dda â'i gilydd.

Mae uwch arweinwyr yn rhoi cefnogaeth gadarn i'r pennaeth. Mae ailstrwythuro'r tîm yn ddiweddar wedi egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o sut mae eu rolau newydd yn cyfrannu at welliant yr ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae amrywioldeb o ran pa mor effeithiol y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae gan arweinwyr canol drosolwg eang o gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae trefniadau i arweinwyr canol gyfarfod â rheolwyr llinell i drafod materion perthnasol yn briodol, ac mae bron pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo gan arweinwyr. Er gwaethaf hyn, nid yw rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol wedi'u diffinio'n ddigon da. O ganlyniad, nid eir i'r afael â blaenoriaethau gwella gyda manwl gywirdeb digonol bob amser. Lleiafrif o arweinwyr cwricwlwm yn unig sydd â dealltwriaeth gref o'r agweddau penodol ar addysgu y mae angen eu gwella, a'r effaith a gaiff addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r ysgol yn cymryd ystod o gamau pwrpasol i wella cyrhaeddiad a lles y disgyblion hyn. Mae hyn yn cynnwys targedu disgyblion unigol ar gyfer dysgu a chymorth ychwanegol, ymgysylltu â theuluoedd a sicrhau nad yw'r disgyblion hyn dan anfantais oherwydd cost y diwrnod ysgol neu gyfleoedd cyfyngedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r gwaith hwn yn dechrau gwneud gwahaniaeth i'r cynnydd a wna disgyblion, ond nid yw wedi cael effaith ddigonol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol yn cyd-fynd yn fras â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi ystod eang o gyfleoedd i staff ymgysylltu ag arfer effeithiol, ymholi yn yr ystafell ddosbarth a sesiynau penodol ar strategaethau darllen ac arfer sy'n ystyriol o drawma. Nid yw arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol ynglŷn â datblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi sicrhau dealltwriaeth ddigon cryf o sut mae dysgu'n ategu cynllunio ac addysgu effeithiol.

Mae gan yr ysgol system briodol ar gyfer rheoli perfformiad sy'n cysylltu â blaenoriaethau presennol yr ysgol. Mae arweinwyr yn cymryd camau i fynd i'r afael â thanberfformio pan fydd angen. Er bod arweinwyr yn creu cysylltiadau addas rhwng rheoli perfformiad, hunanwerthuso a dysgu proffesiynol ar y cyfan, nid yw hyn yn wir ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cylch clir, a ddeellir yn dda, o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae arweinwyr ar bob lefel yn ymgymryd ag ystod gynhwysfawr o weithgareddau priodol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth gref mewn rhai agweddau ar waith yr ysgol, ac wedi helpu arweinwyr i nodi meysydd eang i'w gwella, fel medrau darllen disgyblion. Fodd bynnag, wrth werthuso darpariaeth, nid yw arweinwyr yn gwahaniaethu rhwng nodweddion addysgu a dysgu yn ddigon da nac yn eu gwerthuso â thrylwyredd neu fanwl gywirdeb. Yn ychwanegol, nid ydynt yn gwerthuso darpariaeth ar sail ei heffaith ar ddysgu. Maent yn rhoi gormod o bwyslais ar ddeilliannau ar ddiwedd cyfnodau allweddol a data arall, yn hytrach na gwerthuso'r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi dros gyfnod. Yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn triongli eu canfyddiadau o'r gweithgareddau hunanwerthuso amrywiol yn ddigon da, ac felly, nid yw'r prosesau hyn yn galluogi arweinwyr i nodi cryfderau neu feysydd i'w gwella yn glir neu'n ddigon cywir. O ganlyniad, mae barn arweinwyr ar waith yr ysgol yn rhy gadarnhaol.

Mae gweithgareddau hunanwerthuso a gynhelir gan uwch arweinwyr yn llywio cynllunio ysgol gyfan yn briodol, ac yn nodi meysydd eang i'w gwella, ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol. Mae cynlluniau gwella ysgol gyfan a rhai adrannol yn cyd-fynd â'i gilydd yn agos. Er bod arweinwyr yn nodi blaenoriaethau buddiol ar gyfer gwella, nid ydynt bob amser yn ddigon manwl gywir am yr agweddau ar eu gwaith y maent yn anelu at eu gwella neu am sut olwg allai fod ar lwyddiant. Mae hyn yn lleihau eu gallu i fonitro'n gywir yr effaith a gaiff camau gweithredu ar gynnydd disgyblion.

Caiff Canolfan Elfed ei harwain yn dda. Mae'r rheolwr dysgu yn darparu gweledigaeth glir a chyffrous sy'n cael ei deall yn dda gan bob aelod o staff. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu.

Mae'r pennaeth, y rheolwr cyllid a'r llywodraethwyr yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y gyllideb yn sefydlog, ac mae gwariant yn darparu gwerth am arian. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i gefnogi lles, cyflawniad a phrofiadau disgyblion a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn, at ei gilydd, o'r rhan fwyaf o flaenoriaethau'r ysgol, ac yn deall eu rôl mewn cefnogi a herio'r ysgol. Maent yn falch o'r ysgol ac yn cyflawni eu rolau yn ddiwyd. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a chraffu ar ddefnydd o'r grant datblygu disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, mae llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynnal yr ysgol, gan gynnwys hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch a lles.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2022